**Public Health (Wales) Act 2017 - Special Procedures**

**Introducing the Mandatory Licensing Scheme in Wales**

**Practitioner Newsletter No. 4**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

**This is the fourth in a series of newsletters to keep practitioners informed about the progress of introducing the mandatory licensing scheme for practitioners of Special Procedures in Wales**

## UPDATE SUMMARY

As some of you will already be aware Dr Sarah Jones has now returned to her original role in Welsh Government leading on the introduction of the Special Procedures mandatory licensing scheme in Wales. In the last 2 months, significant progress has made in the preparation work required to introduce this licensing scheme:

- Most of our work is currently involved in preparing the official consultation paper which will be published later this year. This paper will set out our proposals for the licensing scheme and gives you the opportunity to comment on our proposals. We are then required to review all comments and make appropriate amendments.
- The responses we receive will be used to inform what goes into the regulations to govern the licencing scheme and how it will work in practice.
- It is really important that you take part in this consultation process. You will have 3 months from publication of the paper to make your comments.
- When we are able to confirm the date of publication, we will let you know and also advise you of the different ways you can submit your comments.
- The 5 approved training centres in Wales now have access to new revised training materials. This will help with providing consistent delivery of the RSPH Level 2 Award in Infection Prevention and Control.
- A trainer's workshop will take place in July to support the training centres, it is hoped that delivery of this course will commence following this.

Finally, you will be aware that the new Health and Care Act 2022 gives powers to the Secretary of State for Health and Social Care to introduce a licensing scheme for non-surgical cosmetic procedures. This will in effect bring England into line with the powers we already have in Wales under the Public Health (Wales) Act 2017. Once we have introduced licensing arrangements for the four designated special procedures set out in the 2017 Act - tattooing, body piercing, acupuncture and electrolysis. We will give consideration to adding other cosmetic procedures to the scheme, which would also involve a full consultation process.

## RSPH Level 2 Award in Infection Prevention and Control for Special Procedures Practitioners

If you are interested in attending this training course, please contact your preferred training centre on the list provided by RSPH (see link below), or please contact your local authority Environmental Health Department to enquire.

https://www.rsph.org.uk/qualification/level-2-award-in-infection-prevention-and-control-for-special-procedures-practitioners.html

### Useful links:

**Advice for Practitioners: Malignant Melanomas and suspicious moles:**

Moles and your skin: how to spot danger signs | GOV.WALES

**Coronavirus (Covid-19)**

Business Advice:
Public health advice for employers, businesses and organisations: coronavirus [HTML] | GOV.WALES

Public health control measures checklist for businesses, employers and event organisers: coronavirus | GOV.WALES

Main page with key messages and access to guidance/advice:
Coronavirus (COVID-19) | Topic | GOV.WALES

**Monkeypox**

Public Health Wales updates on Monkeypox including FAQs

Public Health Wales statement on monkeypox - Public Health Wales (nhs.wales)

Monkeypox (who.int)

**Any queries please CONTACT: Sarah Jones by email - Sarah.Jones058@gov.wales**

# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig

# Cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol yng Nghymru

## Cylchlythyr Ymarferwyr Rhif 4

**Dyma'r pedwerydd mewn cyfres o gylchlythyrau i roi gwybod i ymarferwyr am hynt y gwaith o gyflwyno'r cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr Triniaethau Arbennig yng Nghymru**

Trial Course February 2020

## CRYNODEB O'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

Fel y bydd rhai ohonoch yn gwybod eisoes, mae Dr Sarah Jones wedi dychwelyd i'w rôl wreiddiol yn Llywodraeth Cymru, lle mae'n arwain y gwaith o gyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru. Yn ystod y ddau fis diwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol o ran paratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun trwyddedu hwn:

- Ar hyn o bryd, ein gwaith pennaf yw paratoi'r papur ymgynghori swyddogol a gaiff ei gyhoeddi'n nes ymlaen eleni. Bydd y papur hwn yn disgrifio ein cynigion ar gyfer y cynllun trwyddedu, ac mae'n gyfle ichi fynegi barn ar ein cynigion. Bydd yn ofynnol inni wedyn adolygu'r holl sylwadau sy'n dod i law, gan wneud unrhyw ddiwygiadau priodol.
- Caiff yr ymatebion eu defnyddio i lywio'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y rheoliadau ar gyfer llywodraethu'r cynllun trwyddedu, a sut y bydd y rheoliadau'n gweithio'n ymarferol.
- Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori hon. Bydd gennych dri mis o adeg cyhoeddi'r papur i gyflwyno eich sylwadau.
- Byddwn yn rhoi gwybod ichi am y dyddiad cyhoeddi unwaith y byddwn yn ei gadarnhau, gan roi gwybod hefyd am y gwahanol ffyrdd o gyflwyno sylwadau.
- Bellach mae deunyddiau hyfforddi diwygiedig newydd ar gael i'r pum canolfan hyfforddi yng Nghymru sydd wedi eu cymeradwyo. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth RSPH o Ddyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau yn gyson.
- Cynhelir gweithdy i hyfforddwyr ym mis Gorffennaf i gefnogi'r canolfannau hyfforddi, a'r gobaith yw y bydd y cwrs yn cael ei ddarparu wedi hynny.

Yn olaf, fel y gwyddoch, mae Deddf Iechyd a Gofal 2022 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau cosmetig anfeddygol. Bydd hyn mewn gwirionedd yn golygu bod y sefyllfa yn Lloegr bellach yn debyg i'r pwerau sydd gennym eisoes yng Nghymru o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Ar ôl inni gyflwyno trefniadau trwyddedu ar gyfer y pedair triniaeth arbennig ddynodedig a nodir yn Neddf 2017 - tatwio, tyllu'r corff, aciwbigo ac electrolysis - byddwn yn ystyried a ddylid cynnwys triniaethau cosmetig eraill yn y cynllun, sef rhywbeth a fyddai hefyd yn golygu cynnal proses ymgynghori lawn.

Hyd nes i'r cynllun newydd gael ei weithredu, bydd y gofyniad presennol yn parhau mewn grym, sy'n golygu bod yn rhaid i ymarferwyr unigol, a busnesau sy'n cynnig triniaethau arbennig, gofrestru gyda'u hawdurdod lleol er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, tatwio a lliwio croen yn lled-barhaol.

## Dyfarniad Lefel 2 RSPH mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig

Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs hyfforddi hwn, cysylltwch â chanolfan hyfforddi o'ch dewis ar restr RSPH (gweler y ddolen isod), neu cysylltwch ag Adran Iechyd Amgylcheddol eich awdurdod lleol i gael gwybodaeth.

https://www.rsph.org.uk/qualification/level-2-award-in-infection-prevention-and-control-for-special-procedures-practitioners.html

### Dolenni defnyddiol:

**Cyngor i Ymarferwyr: adnabod melanomas malaen a mannau duon (moles) a allai fod yn beryglus:**
Mannau duon (moles) ar eich croen: sut i adnabod arwyddion o berygl | LLYW.CYMRU

**Coronafeirws (Covid-19)**

Cyngor i fusnesau:
Cyngor iechyd y cyhoedd i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau: coronafeirws [HTML] | LLYW.CYMRU

Rhestr wirio mesurau rheoli iechyd y cyhoedd ar gyfer busnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau: coronafeirws | LLYW.CYMRU

Y brif dudalen gyda negeseuon allweddol a mynediad at ganllawiau/cyngor:
Coronafeirws (COVID-19) | Pwnc | LLYW.CYMRU

**Brech y Mwncïod**

Y diweddaraf am frech y mwncïod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cwestiynau cyffredin

Datganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar achos wedi'i gadarnhau o frech y mwnciod - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Monkeypox (who.int)

**Unrhyw gwestiynau, e-bostiwch: Sarah Jones - Sarah.Jones058@llyw.cymru**